# Yr Adran Cymunedau

# Taliadau uniongyrchol a chostau ychwanegol

# Taflen Ffeithiau 31

**(Hydref 2023)**

---

**Mae'r daflen ffeithiau hon ar gyfer unigolion sy'n derbyn neu'n mynd i dderbyn taliad uniongyrchol ac sydd eisiau mynd i gostau ychwanegol. Os am wybod beth yw Taliadau Uniongyrchol, pwy sy'n gymwys ar gyfer y cynllun, sut i'w ddefnyddio a pha gymorth sydd i'w gael, gwelwch Daflen Ffeithiau 5.**

## Taliadau Uniongyrchol a Chostau Ychwanegol

Os byddwch yn penderfynu yr hoffech gael taliad uniongyrchol, yna bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn sicrhau bod y taliad uniongyrchol hwnnw yn ddigon i gwrdd â'r anghenion gofal a chymorth yr aseswyd eu bod gennych.

Fodd bynnag, efallai y bydd arnoch eisiau prynu darn drutach o offer, darparwr gofal drutach, neu dalu cyflog uwch i'ch gweithiwr nag y byddai Cyngor Sir Caerfyrddin yn ei dalu i gwrdd â'ch anghenion.

Os oes arnoch eisiau talu am fersiwn ddrutach o rywbeth yr aseswyd eich bod ei angen o fewn eich cynllun gofal a chymorth, yna disgwylir i chi dalu'r gwahaniaeth rhwng y swm y byddai'r Cyngor yn ei dalu a'r hyn y mae arnoch chi eisiau ei dalu.

Os byddwch yn penderfynu talu am gynorthwyydd personol i gwrdd â'r anghenion gofal a chymorth cymwys y nodwyd eu bod gennych, rhaid i chi sicrhau nad ydych yn defnyddio'r holl arian y byddwn ni'n ei roi i chi mewn taliadau uniongyrchol, i dalu i'ch cynorthwyydd personol. Mae hyn oherwydd bod rhaid cadw peth o'r taliadau uniongyrchol ar gyfer pethau eraill megis hyfforddiant, costau pensiwn, treth ac yn y blaen. Gallwn ni eich cynghori ynghylch faint o arian y dylech ddisgwyl ei dalu i'ch cynorthwyydd personol.

At hynny, os byddwch yn penderfynu cyflogi cynorthwyydd personol, byddem yn eich cynghori i beidio ag atal eich cynorthwyydd personol rhag cael ei hawliau cyfreithiol, megis gwyliau blynyddol.

## Os oes arnoch eisiau dod i wybod mwy am Daliadau Uniongyrchol:

Cysylltwch â'ch Gweithiwr Cymdeithasol os oes gennych un neu pe baech yn hoffi cael asesiad o'ch anghenion gofal cewch gysylltu â'r Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth drwy gyfrwng:

- ffôn: 0300 333 2222 neu
- minicom ar: 01554 756741
- SMS: 0789 2345678
- gwneud atgyfeiriad drwy ein gwefan https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/gofal-cymdeithasol-ac-iechyd/

**Mae'r ffeithlen hon hefyd ar gael yn Saesneg.**

**Os hoffech chi gael y ffeithlen hon mewn unrhyw fformat arall ffoniwch 01267 228703 neu**

**e-bostiwch gofalcymdeithasol@sirgar.gov.uk**